

Funded by
UK Government



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



MYSTERIOUS AFAN CUDD

BRWYDRAU,

BEIRDD &

CHYMDOGION GWYLLT



gan Paula Denby

CALON AFAN

Cwmni Buddiant Cymunedol **Calon Afan** Community Interest Company
2 Brookway Close, Port Talbot, SA12 8EL Rhif y Cwmni/Company number: **15284549**
www.calonafan.org

BRWYDRAU, BEIRDD & CHYMDOGION GWYLLT



Rhagair

Syniadau, meddyliau, cwestiynau, lluniau.

Y cyfan wedi'u cynnwys yn y llyfryn bach hwn
yn y gobaith y bydd yn gwneud eich bywyd yn haws
– chi arwyr ddi-glod a adwaenir yn dorfol fel athrawon,
y disgwylir iddynt fynd ymhell y tu hwnt i'r disgwyl.

Gobeithio y bydd y pecyn adnoddau hyn o ddefnydd i chi, a
bod y syniadau a'r hanes a gynhwysir ynddo yn eich
ysbrydoli a'ch addysgu i gymryd golwg newydd ar yr hyn
mae'n olygu i gael eich geni yng nghysgod mynydd ein
cyndeidiau.

'Ar gyfer ein disgynyddion'

(Paula Denby 2024)

Er taw prif thema'r pecyn adnoddau hyn yw hanes anghofiedig Tywysogion Afan, hoffwn awgrymu ein bod yn archwilio eu storïau er mwyn deall effaith eu hanes ar fywyd cyfoes. Pan yn ystyried hyn efallai y bydd ein gweithredoedd, neu'n diffyg gweithredu ni – y bobl a fydd, yn y dyfodol, yn gyndeidiau i'n disgynyddion – yn effeithio ar eu dyfodol.

Mae'r Celfyddydau yn ein galluogi i ddychmygu'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Mae defnyddio cerddoriaeth yn gallu newid cyflyrau emosiynol. Mae drama yn gallu'n tywys i fyd dychmygol sy'n wahanol iawn i'n byd ni, gan ehangu ein perspectif ar brofiad bodau dynol. Mae'r Celfyddydau Gweledol yn esbonio sut 'rydym yn gweld a deall y byd. Mae hanes yn arddangos angen bodau dynol i fynegi a chyfathrebu mewn ffordd greadigol a dychmygol – yn amrywio o gelfyddyd yr ogofáu, i'r graffiti ar wal tanlwybr yn Aberafan - o fardd yr oesoedd canol fel Ieuan Gethin i'r llu o actorion, cerddorion, beirdd, storïwyr ac artistiaid o Gwm Afan sydd wedi cynnig eu talentau i'r byd trwy gydol hanes, a sy'n dal i wneud hynny hyd heddiw, gan ddefnyddio technoleg y byddai ein cyndeidiau ar gefn eu ceffylau wedi rhyfeddu ati.

Rwyf yn aml yn defnyddio barddoniaeth, storïau a chaneuon i gydfynd â chelfyddydau gweledol a chrefftau. Mae'r rhain yn gallu ysbrydoli ffrwd ddi-ddiwedd o greadigrwydd gan fyfyrwyr ifanc ac hŷn. Mae deallusrwydd creadigol yn wahanol i ddeallusrwydd llinol neu resymegol. Mae'n creu perthynas rhydd rhwng gwrthrychau a syniadau, gan weu llinynnau unigryw o ddychymyg y person sydd wedi ei fynegi.

Y FRWYDR

Prelude

Silent in the woods we hid

Knowing this was a battle for our freedom,

our families our lives were on the line.

It was fight or die.

We are the Cymry

We will not accept conquest.

The Battle

Hiding silent

we heard them come

from miles away

clanking armour, horses noisy,

men talking and laughing

So certain of victory

they were.

We hid silent

We kept still

The mighty Oaks reassured us

We could win

We could win.

Still as foxes

Silent as owls

We waited.

Closer and closer they came

in their hundreds.

They poured up the main tracks

in full view

They were the doves

to us the hawks

We stayed amongst the trees

'till they were all here.

On our land

Our field of battle.

This mountain had given us

her yews. Our longbows

sprang into action

Our slingers

sprang from cover

arrows, stones all missiles

*all aiming at the hated **gelyn***

I thought of my baby

hidden in the cave

with my wife

She was one of our best slingers

accurate. and powerful fast but,

our baby newborn

needs her.

The older children here

with water from the mountain...

I saw him

*he who had slain so many
of my friends.*

*Hate filled my heart
I swung my arm back
as in his arrogance
he took his helmet
off.*

*Roaring his defiance
as the shields of his knights
raised around him*

*As he sat on that magnificent Stallion –
that roared with his Master*

What a horse!

*He reared, excited and brave
to do battle*

A trained Stallion of war.

*My stone flew, avoiding the horse, slamming his master
from the saddle.*

*We ran roaring our defiance
Roaring our hate
Roaring with courage
Out from the mighty Oaks
we dropped in our numbers
With courage and skill enough
to take them on
To destroy those who sought
to enslave us to
their ways
We fought and we
fought
and we kept
their
Horses.*



Mynydd Dinas yn gwarchod Gwasael Cwmafan gyda'r Fari Lwyd

priodolir i: Paula Denby

Noder; Mae gwybodaeth am y Fari Lwyd yn y pecyn adnoddau hwn. Mae gan Gwm Afan ei Fari ei hun; cwrddais i â Tim Rees, sy'n trin y Fari, am y tro cyntaf ar ddiwrnod llwyd llawn glaw mân, mewn cae uchel ar Fynydd Dinas.

Pan yn blentyn roeddwn wedi clywed yr hanes llafar bod 'Tywysog o Gymro wedi cael ei ladd mewn brwydr ar y mynydd hwnnw'. Roedd Tim wedi adrodd hanes Tywysogion Afan ac, yn awr, gan ddefnyddio'r pecyn adnoddau hwn, gallwch chi ddysgu'r cyfan am ei harwyr anghofiedig...

Roedd Tim wedi dysgu o'r ffermwr lleol a rhoddodd iddo penglog y Fari – bod y benglog yn dod o geffyl a oedd yn rhan o linach ceffyl a gipiwyd oddiwrth y Normaniaid wedi brwydr ar Fynydd Dinas. Dyna ichi stori anhygoel, a'r fath ysbrydoliaeth ar gyfer fy ngherdd! 'Rwyf yn gobeithio y byddwch yn mwynhau'r gerdd hon fel man cychwyn creu eich cerddi, storïau a gwaith celf eich hunain.

Q? Pwy oedd y Cymry?

Q? Yn erbyn pwy oedd y Cymry'n brwydro?

Q? Ar ba oedran roedd y marchogion Normanaidd yn dechrau hyfforddi i fod yn farchog?

Q? Pa arfau oedd disgwyl i'r marchog ifanc eu meistrolï?

Q? Beth oedd tactegau ymladd gerila (nid Gorila!) y Cymry?

Q? Sut 'rydych yn teimlo wedi ichi glywed y gerdd hon?

...'Roedd rhaid i'r Cymry nid yn unig ymladd i gadw'u tîroedd yn ddiogel rhag y rhai hynny a fyddai'n ei ddwyn oddiwrthynt. Roedd rhaid i'r genedl Gymreig frwydro am ei bodolaeth'...

(Dilys Gater)

Hwyl-ffaith: Byddai'r Cymry "tawel" yn gyfarwydd â'r atsain sy'n atseinio o Fynydd Dinas hyd at Bontrhydyfen, ond ni fyddai'r gelyn "stwrlyd" yn ymwybodol o hyn.



Cwm Afan ©2017 gan Paula Denby

Cafodd y paentiad olew hwn ei greu yn yr awyr agored tra roeddwn yn eistedd ar Fynydd Dinas yn edrych i fyny Cwm Afan tuag at Bontrhydyfen, a thu hwnt. Mae'n dangos yn glir siap y bryniau a'r mynyddoedd, sef y siap y mae'r bobl lleol yn credu sy'n achosi'r effaith atseinio!

Paentiwyd y tirlun gan ddefnyddio paent olew trwchus; roedd hyn yn golygu fy mod i'n gorfod cerdded yn ôl lawr y mynydd at fy nghar gan ddal paentiad olew glwyb yn ofalus dros ben.

Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

DAN DO/ YN YR AWYR AGORED: Rwyf wedi llwyddo i ddefnyddio pensiliau, pensiliau lliw, sialc lliw a/ neu siarcol (gan ei chwistrellu gyda chwistrell sefydlogi ar unwaith ar ôl gorffen y gwaith er mwyn osgoi ei smwtsio) creonau olew, creonau cŵyr, tuniau bychain o baent dyfrlliw a phaent acrylig. Mae'n bosibl defnyddio ardal yn yr awyr agored o gwmpas yr ysgol am ei golygfeydd, ei phlanhigion a'i choed. Yn ddiweddarach mae'n bosibl datblygu'r rhain i fod yn baentiadau ar bapur, cerdyn, canfas, deunydd, printiau (leino, mono).

Tra'n cerdded i Fynydd Dinas – mae hyn yn bosibilrwydd rhesymol i lawer o ysgolion Port Talbot – mae'r plant wedi llwyddo cario eu deunyddiau ei hunain, gan gynnwys papur wedi'i rholio ynghyd â rhywbeth i'w bwysu ar, megis llyfr tenau neu ffeil A4, neu hyd yn oed darn o gardfwrdd trwchus. Mae'r mwy mentrus yn ein mysg wedi defnyddio cefnau ein gilydd!

AIL-ADRODD STORÏAU

2D: Meddylwch am Dapestri Bayeux a bocsys simsan, pypedau cysgod, pypedau bys, bwrdd stori, comics a gwaith collage.

3D: Ffelt nodwydd, clai sy'n sychu yn yr aer yn opsiwn os nad oes adran Gerameg yn yr ysgol (hyd yn hyn!), hyd yn oed ffigyrau plastisîn i ddylunio bwrdd brwydro, mynydd, bywyd gwyllt, coed, bodau dynol ayyb. Gallai hyn gwmpasu

“perchnogaeth lawn” drwy gynaeafu a cherfio eich darn o bren eich hun.



Cornicyll ffelt nodwydd gan Megan Green YBB

TEGANAU! Mae'r pecyn hwn yn trafod teuluoedd yn rhyfela; roedd teganau traddodiadol a setiau gwyddbwyll yn aml yn cael eu gwneud o bren, a byddwn i'n dychmygu bod deunyddiau megis gwlân wedi cael eu defnyddio i lunio teganau i'r plant ifancach. Byddai'r plant hŷn yn gallu llunio eu teganau eu hunain o ddarn o sycamorwydden, pren hyfryd, nad yw'n wenwynig, sy'n tyfu'n helaeth ar lethrau isaf Mynydd Dinas uwchben Baglan.

CERDDORIAETH: Mae'r ddolen isod yn arwain at berfformiad byw gan Stevie Nicks o'i gân "Rhiannon", cân a ysbrydolwyd gan neb arall ond Rhiannon, mam Pryderi, a'r stori **o'r Mabinogi**.

<https://youtu.be/2o-ZvDqPEw?feature=shared>

Ers amser maith mae ceffylau wedi cynrychioli rhyddid, ac mae'n sicr bod stori Rhiannon yn ymwneud â'r rhyddid i ddewis.

Mae'r defnydd o briodi fel ffordd o gynghreirio heb dywallt gwaed wedi bod yn dacteg meddiannu tir a chreu heddwch a ddefnyddiwyd ar hyd yr oesoedd gan Frenhinesau, Brenhinoedd a Thywysogion Afan.

CHWARAE RÔL

Q? Pa storïau eraill gallwch feddwl amdanynt sy'n darlunio'r defnydd o'r dacteg hon?

Q? Dychmygwch eich bod yn Frenin neu'n Frenhines o wlad sydd ynghanol rhyfel. Mae gennych gyfle i ennill heddwch os byddwch yn priodi un o'ch plant i un o blant eich gelyn. A fyddech chi'n gwneud hyn?

LLAIS: Wedi iddi wrando ar ddarleniad dramatig o'r gerdd "Y Frwydr", roedd Helen John, yr athrawes wych yn YBB, wedi cynnig yr awgrymiadau canlynol.....


DRAMA TGAU: defnyddio'r gerdd fel 'monolog gydag adrodd corawl, a fframau rhewi yn y cefndir, yngyd â pheth theatr gorfforol...

LEFEL A neu FFILM: darnau byr o ffilm yn dangos pobl, gan ddefnyddio'r gerdd fel troslais.'

SAFBWYNTIAU ERAILL: Rhaid peidio anwybyddu safbwynt y march o'r frwydr, y Coed Deri mawrion neu'r creaduriaid sy'n byw odditanynt!



Llun pensil gan Martha a Darcy, 10 mlwydd oed, YBB



Ffelt gwlyb o Fynydd Dinas gan Dawn Noonan, YBB

YSGRIFENNU: storïau, cerddi, areithiau, dramáu, cerddoriaeth – mae'n bosibl cyfuno'r cyfan gyda delweddau 2D a 3.

_Tra roeddwn yn y broses o greu logo Afan Erioed, fel rhan o'm gwaith ymchwil astudiais seliau'r Tywysogion. Sylweddolais bod cynnwys y ddelwedd o geffyl ar sêl Morgan ap Caradog yn arwyddocaol oherwydd ei fod yn arddangos portread clir o'r ceffyl, wedi'i ddylunio gyda chymaint o fanylder â'r marchog a'i gleddyf miniog.


(Cefais fy atgoffa o'r portread enwog o Napoleon ar gefn Marengo, ei geffyl rhyfel).

Mae'n ddiddorol cofnodi bod seliau marchogol yn boblogaidd yn y cyfnod hwn ymysg bonheddwyr Ffrainc a Phrydain.

Q? Paham ydych chi'n credu fy mod wedi tynnu llun pen marchog uwchben Mynydd Dinas?



Dyluniad y Logo gan Paula Denby



"Llanarth Briant", trwy ganiatâd Stablau Llanarth

Hwyl-ffaith: Mae delwedd y ceffyl ar y sêl, gyda'i wyneb "dysglog" yn debyg iawn i'r cobiau "Adran D Cymreig" cyfoes.



Y machlud, gan edrych dros Abertawe o Fynydd Dinas priodolir i: P. Denby

Mae hwn yn gae uwchben safle'r castell Mwnt a Beili


Q? A allwch chi weld pa greaduriaid sydd ar y cae?

Hwyl-ffaith: Mae cae ger safle'r castell hwn a enwir, yn ôl y ffermwr, "Cae Bolan" oherwydd ei fod mewn siap het bowler! (cliw dirgel).

Diolch byth bod adrannau Celfyddydau Mynegiannol yn dychwelyd i'n hysgolion yng Nghymru. 'Rwy'n cofio fy ysgol innau'n llwyfannu cynhyrchiad drama drasiedi hanesyddol – dysgwyd hanes cymdeithasol y stori drwy'r sgript, drwy'r rolau'r cymeriadau a gafodd eu portreadu. Does dim ffin o ran pa mor eang a phell y gall y Celfyddydau ymestyn ar draws y cwricwlwm. Mae 'na bosibiliadau di-ddiwedd, gydag un cwestiwn yn arwain at y nesaf....

Y Traddodiad Barddol


'Rwyf eisoes wedi sôn am y talentau creadigol lluosog sydd wedi ymddangos, a sy'n dal i ymddangos ym Mhort Talbot cyfoes. Mae'r traddodiad barddol hwn yn ymestyn yn ôl drwy'r canrifoedd, ac yn werth ei ystyried.

 Mae'r llyfr isod yn ddefnyddiol wrth archwilio'r toreth hwn o ddeunydd:

"Real Port Talbot" gan Lynne Rees ISBN: 9781781726525

Mae fy ngerdd, "Y Frwydr", yn cydfynd â'm gwreiddiau ym Mhort Talbot, a gyda'r traddodiad barddol o gofnodi digwyddiadau. Er fy mod i'n ysgrifennu hwn ganrifoedd wedi'r frwydr, mae fy nychymyg yn fy ngalluogi i a'r gwrandawr i fod yn dystion i'r digwyddiad....

Q? A oes 'na gerddi ymladd eraill? Beth yw eu hanes, eu steil, pwy oedd eu hawduron?



Darlun mewn pensiliau lliw gan Michael a Jaxon, 10 oed, YBB

Hwyl-ffaith: Mae ffilmiau'n esiamplau gwych o'r celfyddydau mynegiannol yn gwneud defnydd o gerddoriaeth, drama a geiriau, a'r cyfan mewn golygfa weledol.


Q? Pa un yw eich hoff ffilm sy'n defnyddio, fel ei brif thema, arwr ac anfadwr?

Isod gweler ddarlleniad a gyflwynir gan Urdd Derwyddion Prydain Swyn Iacháu Canoloesol o'r 14eg ganrif



"Cad Goddeu, Brwydr y Coed o Lyfr Taliesin

<https://youtu.be/rvXt-QLbZ3U?feature=shared>

 Llyfr sydd wedi bod o ddefnydd mawr imi yw "*The Battles of Wales*" gan Dilys Gater ISBN 0-86381-178-7. Mae'n cyfuno data hanesyddol gyda hel straeon a barddoniaeth, ac mae hyn yn ei wneud yn ddarllenadwy iawn.

~

Y concwerwyr sydd fel arfer yn cofnodi hanes ond, yn aml, bydd Bardd yn cofnodi digwyddiadau sydd yn/neu a oedd, yn bwysig iddo ef, mewn ffordd bersonol.

Mae hyn yn gallu amrywio a gerdd leuan Gethin o Faglan yn sôn am ddwyn ei weny

'...o'r brynïau hyd at y goeden gau. Er mwyn Duw'r Nef, maen nhw'n dwyn y mêl fel dihirod.....'

neu "Marwnad Lywelyn ap Gruffydd" gan Gruffudd ab yr Ynad Coch...

'Oer galon dan vron o vraw allwynin
am vrenhin
derwin dor Aberffraw'

Mae'r gerdd "Y Frwydr" yn stori Dafydd a Goliath,
Gwrthryfelwyr Star Wars yn erbyn yr Ymherodraeth, y
Résistance Ffrengig yn erbyn y Natsiaid...

'Roedd llawer o'r beirdd heb oroesi, ond mae eu gwaith yn
aros fel tyst barddol i'r cyfnodau tywyll 'roedden nhw, a ni,
yn byw ynddynt'


(Carolyn Forche)

Natur a'n Cymdogion Gwyllt

I am the lapwing who sits in the grass

I am the bird whose voice goes unheard

(Paula Denby)



"Y Cornicyll" (manylyn) ar sgathrfwrdd gan Paula Denby

Ar un adeg roedd y tiroedd o gwmpas Mynydd Dinas, sydd wedi gweld cloddio mawr am fwynau, yn cael eu galw'n gardd Cymru, a dywedwyd na fyddai traed gwiwer yn cyffwrdd â'r llawr tra'n teithio rhwng Abatai Margam a Nedd.



Ystlum Ffelt gan Verity Oswald, 17 mlwydd oed

Q? Pwy sy'n siarad ar ran ein cymdogion gwylt?

Q ? Beth yw coridor bywyd gwylt?

Q ? Ym mha ffordd y gall y tir o gwmpas ysgolion, a gerddi o gwmpas tai fod o gymorth i'n cymdogion gwylt?

Q? A allwch chi adnabod unrhyw goridorau bywyd gwylt ger eich ysgol chi?

Q? Paham y mae gweithwyr y Cyngor yn gadael gwair ymylon y ffordd heb ei dorri?

Hwyl-ffaith: Mae poblogaeth ffyniannus o ddrudwyod ar Ystad Sandfields. Paham ydynt yn dychwelyd unwaith eto? Wedi imi eu gwyllo yr haf diwethaf sylweddolais eu bod yn defnyddio bondo'r tai fel safleoedd nythu, a bod y cartref i'r henoed yn sicrhau bod y bwydwyr adar yn cael eu hail-lenwi'n gyson. Tra bod hi'n ffaith nad yw rhai pobl yn caniatáu i'r adar ddefnyddio corneli eu toeon i nythu, yn fy mhrofiad personol, mae drudwyod yn adar glân, nad ydynt yn creu unrhyw lanast. Mae'r hwyl dw i'n cael wrth wyllo'r oedolion yn bwydo eu cywion, ehediad cyntaf y rhai bach a'r cynnydd yn eu niferoedd bob blwyddyn yn rhoi bodlondeb imi. Bonws arall yw eu bod wedi glanhau cafnau fy nhŷ, a oedd wedi'u llenwi â dail, wrth iddynt chwilota am bryfed o dan y dail!

~

Ffaith drist: Mae'n rhaid bod y Tywysogion a'r bobl yr yr oesoedd canol a oedd yn cerdded neu marchogaeth ar y llwybrau drwy Rhosydd Baglan yn gyfarwydd â'r cornicyllod. Gallaf ddychmygu heidiau prydferth ohonynt, gan dybio ai dyma'r adar copaog a oedd yn eistedd ar ffensys newydd eu hadeiladu gerdd ystad Sandfields newydd, yn gwyllo eu cymdogion dynol newydd yn yr 1960au.

Erbyn heddiw mae eu cynefin bridio wedi'i gyfyngu i'r fath raddau fel bod y Cadwraethwyr yn digalonni y byddant yn aros yn yr ardal o gwbl.



- "Cath", darlun pensil gan Brooke Little, 15 mlwydd oed (YBB)

Mamal arall y bydda'n gyfarwydd i'n cyndeidiau yn yr oesoedd canol oedd y gath wyllt; ar un adeg roedd yn gyffredin ledled Prydain ond, erbyn hyn, mae ond yn byw yn y gwyllt yn yr Alban.

Q? Beth yw eich barn chi ynghylch ail-gyflwyno'r gath wyllt i Gwm Afan?

Q ? Pa "famal Cwm Afan yr oesoedd canol" arall na soniwyd amdano sydd wedi'i ail-gyflwyno'n llwyddiannus i rannau eraill o Brydain?

Q ? Beth yw eich barn chi ynghylch colli, ac yna ail-gyflwyno, ein cymdogion gwyllt hynafol?

Hwyl-ffaith: Mae dychweliad diweddar y Barcut Coch i Gymru yn esiampl o aderyn mwy adnabyddus yn arddangos gwytnwch ein cymdogion gwyllt pan maen nhw'n cael ychydig gymorth, fel yn fferm Gigrin ac... ydynt, maen nhw wedi dychwelyd i Gwm Afan!

~

Er bod Afan erbyn hyn yn lân, ar un adeg roedd yn ddu, ac wedi'i wenwynu mor wael fel bod bobl lleol yn ei disgrifio fel afon ddu a marw.

Ond erbyn heddiw, diolch i ymdrechion cymunedau, pysgotwyr a'r cyngor lleol, mae'r Afan yn ffynnu. Mae dyfroedd yr afon yn llawn bywyd, wrth iddi ymlwybro lawr y dyffryn, gan droi o gwmpas Mynydd Dinas cyn byrlymu heibio i siop Tesco ac ymlaen at y môr yn Aberafan.

Mae'r afon yn cael ei bwydo gan y ffynhonnau sy'n codi ar Fynydd Dinas.



Rhaeadr Nant y Glais, prïodolir i: Paula Denby

Mae grymoedd iachusol rhyfedd y ffynhonnau yn atseinio yn enwau strydoedd, pyllau a chaeau lleol, megis *Wellfield*, *Holywell* a Nant yr Arian, i enwi ond ychydig.

Lle y mae dŵr, mae bywyd

Mae'n beth trist a gobeithiol bod y mynydd yn sefyll fel Gwarcheidwad cymaint o rywogaethau o fflora a ffawna, sydd wedi diflannu mewn ardaloedd o'r sir. Mae'n wir yn rhyfedd bod ehedyddion a phibyddion y waun yn canu uwchben y grug, bod chwilod y dom yn bodoli ar ddolydd heb eu gwella y ffermwyr mynydd – nad ydynt, diolch byth, yn pori defaid – felly mae eu ceffylau a'u gwartheg yn creu dolydd o flodau gwylt sy'n byrlymu gyda phryfed, a'r madfallod sy'n eu bwyta.

Q? Beth yw ystyr tir pori heb ei wella?

Q? Paham, yn eich barn chi, bod cymaint o fflora a ffawna cynhenid wedi diflannu o Bort Talbot a Chwm Afan?

Dyma gyfle gwych i greu cynefinoedd o gwmpas yr ysgol, oherwydd mae pob patsyn bach yn cyfrif!

*Mae'n bosibl cysylltu coridorau bywyd gwylt, ac ymuno poblogaethau ynysig o'n cymdogion gwylt, a chryfhau eu cyfanswm genynnol.

Q? Paham y dylen ni blannu hadau cynhenid a brynwyd o ddarparwr megis Celtic Wildflowers*, ac nid i ddefnyddio hadau o'r archfarchnad?


Q? Sut y gallwn sicrhau bod dysgyblon yn cymryd rhan mewn prosiectau plannu ymarferol?

Q? Sut mae athro yn dod o hyd i'r amser i wneud y fath waith yn ystod diwrnod ysgol?


Q? Os bydd yr holl blant am ymwneud â phrosiect tyfu go-iawn



Cymysgedd o gnau cyll go-iawn a chnau wedi'u gwneud o wllân ar ddail ffelt wedi'u gwnio, a gynhyrchwyd gan amrwylol ddisgyblion YBB

 **Syniad** Hambwrdd o gennin syfi, berwr, garleg ayyb. Wedi'u gosod ar silff ffenestr – mae pawb yn cael cyfle i'w gweld yn tyfu, eu blasu – eu cynaeafu'n gynaliadwy – eu trwasblannu i botyn mwy o faint – eu gosod y tu allan i'r ystafell ddosbarth, blodeuo, cael eu peillio – cadw'r hadau – eu hail-blannu.

Hwyl-ffaith: Gall un wenwynen gario llwyth o baill sy'n pwyso hyd at 35% o gyfanswm pwysau ei chorff! Maen nhw'n cario'r paill hwn ar eu coesau ôl mewn basgedi paill bychan o'r enw "corbicula"



Gwenynnen gwyllt yn chwilio am fwyd mewn rhosyn gwyllt

priodolir i: Paula Denby

Q? Beth yw ystyr twrio am fwyd cynaliadwy?

Cyn mynd i Ysgol Bae Baglan (YBB) bues i'n twrio am fwyd ar Fynydd Dinas ac ym mherthi gwyllt fy ngardd – am fflora go-iawn y gall y plant edrych ar, ei arogl, cyffwrdd a dal. Roedd gen i ganghennau prysgoed cyll, dail mintys gwyllt, cnau cyll a, seren yr ymweliad, mefusen fechan wyllt a oedd wedi synnu pawb o'i chymharu â mefusen a brynwyd yn yr archfarchnad....

'ond dim ond maint resinen yw e!'

WILD GARDEN

This field of flowers is one of my gardens,
for I have many.

I walk this one now, this beautiful
yellow, pink, red, green and all
the shades in between and I feel,
the bountiful bursting forth of blooms and butterflies and
moths.

Already the thistles move to seed and
yet, we're in high summer yellow.

Already some of the leaves
come away from the trees
As the milk nuts on the hazels form.

I walk this field, this one of many
fields, that are my gardens.

The gardens that are free for us all.
Gardens full of buzzing and humming
and song and hush-hushing
of wind through leaves
and movement of clouds
unencumbered by buildings
As I stand in a field
On a mountain side
In Wales.

(Paula Denby)



Dexter, Gethin, Freddie a Jensen, bl. 5/6 YBB



Yr olygfa o Fynydd Dinas yn edrych i'r De dros waith dur Tata ac i'r môr y tu hwnt, priodolir i: Paula Denby

Gwenoliaid mudol, gwenoliaid duon a gwenoliaid y bondo yn bwydo'n awchus o gwmpas Mynydd Dinas, eu man gorffwys mynyddig cyntaf wedi iddynt hedfan i'r wlad dros y môr yn Aberafan. Ar Fynydd Dinas y gwelwyd y cudyll bach olaf i'w gofnodi yn yr hen Sir Forgannwg. Rhaid bod yr arddangosfa awyr rhwng y cudyll bach (ysglyfaethwr), a'r gwenoliaid yn plymio (ysglyfaeth) yn olygfa gwerth ei gweld.

Mae'r amrywiaeth rhyfedd o wahanol gynefinoedd yn arwain at amrywiaeth fawr o wahanol rywogaethau'n bridio a bwydo – gan gynnwys y bodau dynol sy'n twrio am fwyd – y coed cyll a'r cnau, y mwyar, llus ac afalau.

Q? Pa ddefnydd arall o goed cyll yn dyddio o'r oesoedd canol sydd dal yn cael ei arddel heddiw?



Coed cyll ar Fynydd Dinas, priodolir i: Paula Denby


Q? Ydych chi'n gallu dweud beth yw oedran coeden cyll a goedlannwyd yn dda?

Q? Pa rywogaeth sy'n ffynnu ar y mynydd arbennig hwn heddiw, rhywogaeth a oedd, o bosibl, yno pan roedd y Tywysogion yn cerdded ei llethrau?

Q? Gwyddwn bod ceirw wedi byw ar y mynydd; pa ysgylfaethwr, ar wahan i fodau dynol, oedd yn debyg o fodoli, ac hefyd wedi hela'r ceirw?

Hwyl-ffaith: Mae 'na hen enw lle ar Ddinas sy'n cynnig cliw i ni....

'Cae Rhiw Blaidd'



Blaidd. gan Mia Ashford-John YBB

Q? Beth yw ysglyfaethwr?

Q? Yn eich tyb chi, pa famaliaid eraill oedd y Tywysogion yn bwyta?

Q? Ydyn ni'n bwyta yr un creaduriaid heddiw?

Q? Ydych chi'n credu bod hi'n bosib gweld ceirw gwyllt yng Ngwm Afan heddiw?

Q? Yn eich barn chi, o ble roedd rhain wedi dod? Heddiw mae elyrch hardd yn nofio ar yr Afan; ydy'r rhain yn ddisgynyddion o elyrch yr oesoedd canol a gafodd eu hela a sydd, erbyn hyn, yn cael eu hedmygu am eu prydfferthwch? Mae llawer o creaduriaid yn hoffi dychwelyd i'r man lle y cawsant eu magu i baru a chodi eu rhai bach.

Q? Beth yw ystyr y gair "hiraeth"?

Hwyl-ffaith: Heddiw, ymysg y llu o blanhigion sy'n tyfu ar Fynydd Dinas mae llawer o berlyisiau "clwyf", megis milddail a danhogen y dŵr ynghyd â'r goeden helyg sy'n tyfu gerllaw, yr ysbrydoliaerth y tu ôl i 'r cyffur lleddfu poen, aspirin.



Danhogen y dŵr ar Fynydd Dinas, priodolir i Paula Denby

Q? Beth a olygir gan y term "perlys clwyf"?

Roedd mawr angen yr iachawyr a'u meddyginiaethau ar faes y gad. Mae mynyddoedd Cymru yn llawn o bob math o feddyginiaethau gwyllt sy'n hysbys i lysieuyddion modern a bobl lleol drwy hanes llafar, sy'n cofnodi'r hyn sy'n iacháu, a'r hyn sy'n achosi niwed.

The Physicians of Myddfai revisited

Ardd Fotaneg · Botanic Garden

In 2017 the National Botanic Garden of Wales will relaunch its Apothecary's Garden, originally planted in 2002.

I have been using the Garden's library to get a clearer picture of the work of the apothecary and have been pleased to rediscover the story of the Physicians of Myddfai (Meddygon Myddfai), whose work will also come into focus with the redevelopment of the new garden.

Myddfai is a village in north east Carmarthenshire. It was here that the first of the physicians practiced. His name was Rhiwallon and his descendants are said to have continued his work, in an unbroken hereditary line, until the eighteenth century.

Q? Pwy oedd Meddygon Myddfai?

Q? Pwy oedd ei mam?

Syniad* 🌳 Mae Gerddi Botaneg Cymru yn lle gwych i ymweld â am ddiwrnod, neu am daith ysgol.

Hwyl-ffaith: Roedd y blodau mewn dŵl leol ger Ysgol Bae Baglan wedi ysbrydoli'r pensaer i seilio lliwiau welydd yr ysgol arnynt!



Llun o fuarth Ysgol Bae Baglan, priodolir i: Paula Denby

TIR DIFFAITH

'This is the field of battle

but it wasn't glorious.

The air was rent

with screams and cries

of men, women and children

Fighting

for their lives

On both sides...'

(Paula Denby)

Darn o gerdd hir a ysgrifennwyd ar ôl "Y Frwydr".

Yn anffodus, mae'r gerdd hon yn disgrifio canlyniad brwydr, brywdr sydd ymysg y llu o frwydrau yr ymladdwyd dros y canrifoedd yng Nghymru. Mae yr un mor wir heddiw ag y bu yn y gorffennol.

Rhyfel yw rhyfel mewn unrhyw gyfnod ac yn unrhyw rhan o'n planed.

UN BYD.

Yn yr oes fodern sydd ohoni lle mae'n bosibl anfon ebost, yn hudol bron, fel llythyr ar unwaith i ochr arall y byd; mae'n ffordd o gyfathrebu na fyddai'n cyndeidiaid ar gefn ceffyl, yn cario llythyr, yn credu ei fod yn bosibl! Mae'n rhaid imi gyfaddef fy mod dal ddim yn deall sut mae'n bosibl gwneud hyn?



Fy ngobaith yw wrth bod y rhyngrwyd yn datgelu erchylldra'r rhyfeloedd sy'n mynd ymlaen ledled y byd heddiw- dychryn a oedd ar un adeg yn gallu cael ei guddio – bydd y datguddiad yn tyfu i fod yn dir ffrwythlon i hau hadau Heddwch.

Yn ddiweddar, roeddwn yn gweithio mewn ysgol a chwrrddais â Chynorthwydd Addysgu a oedd yn cefnogi disgybl o'r Wcraïn gan nad oedd yn medru siarad Saesneg. Roedd hi'n cyfieithu fy ngwers fel bod modd i'r disgybl hwn gyfranogi iddi. Dywedodd wrtha i ei bod wedi bod yn athrawes mathemateg yn Wcraïn cyn y rhyfel yn erbyn Rwsia.

Q? Sut bydd hi'n bosibl sicrhau bod heddwch yn realiti ar y Ddaear?

Q? Ydy hi'n bosibl dysgu heddwch fel pwnc yn yr ysgol?

Q? Ydy hi'n bosibl hyfforddi'r genhedlaeth hon a'r cenedlaethau sydd i ddod i feddu ar y sgiliau a fydd yn eu galluogi i fod yn Heddychwyr?

Myfi. Teulu, Cymydog, Cymuned (Llwyth), Cenedl (Gwlad), Cyfandir, Byd.

Q? Pryd mewn hanes ydy heddwch wedi'i gyflawni'n llwyddiannus?

Q? Ar ba adeg drwy hanes ydy trafodaethau heddwch wedi methu?

Q? Ym mha ffordd oedd Tywysogion Afan wedi ennill cyngreiriaid?

Q? Pwy oedd rhain?

Gwahanol ieithoedd a diwylliannau – gwyddys bod gwahaniaethau'n cael eu pontio pan yn wynebu gelyn cyffredin... yn hanes Cymru mae gennym Rhodri Mawr yn ymuno ag Alfred the Great i ymladd yn erbyn y Daniaid. Yn hanes Prydeinig mae gennym y Rhyfeloedd Byd ofnadwy.

Q? Pwy oedd cyngreiriaid mwyaf Tywysogion Afan?

Q? Sawl rhyfel sy'n cael ei ymladd ar hyn o bryd?

Q? A fydd hanes yn dal i ail-adrodd ei hun, neu oes gobaith y bydd dynolryw yn newid?

TIR DIFFAITH

Epilogue

' What a waste war is

Waste land recovers

After industry, after battles

but not before

Many, many lives are destroyed.

Let us learn now

Let us say – as a Human race

Enough...'

(Paula Denby)



Un Byd 2012 (manyllyn) © , gan Paula Denby

'Into my home village flows Heavens starry river'

(Haicw Siapaneaidd)

Roedd "Un Byd" yn brosiect y Celfyddydau a Natur a oedd yn gefeillio Parc Coetir Afan yng Nghymru gydag Ymddiriedolaeth Coetir C. W. Nicol Afan yn Siapan, ac yn cynnwys llawer o blant ysgol o Gwm Afan a'u hathrawon, yn cydweithio gyda Godo Utaka (artist Siapaneaidd) a minnau.



Afan Woodland memorial plaque, Shinanomachi, Nagano Prefecture, July 16, 2021 (David Spurr)

Hynafiad modern o Afan Wallia

Ysbrydoliaeth! Am stori i'r plant – sut y gallai un dyn o Dde Cymru gyflawni'r fath waddol parhaol oherwydd iddo beidio anghofio gwyrddio Cwm Afan ôl-ddiwydiannol, a cheisio sefydlu cyfeillgarwch heddychlon, a rhannu gwybodaeth am brosiectau coetir addysgiadol gan ddefnyddio ceffylau yn hytrach na pheiriannau i wneud y gwaith yn y fforestydd mewn modd mwy sensitif. Rwyf yn

dychmygu bod peiriannau trymion a brwydro ffyrnig yn cael effaith go debyg ar y tir.

Roedd "Wncwl Nic" a Dick Wagstaff (Rheolwr Afan Argoed ar y pryd hwnnw) wedi creu llawer o brosiectau gwych wedi'u seilio ar Natur a'r Celfyddydau, prosiectau a alluogwyd drwy eu cyfeillgarwch, a gefeillio coetiroedd yn Siapan a Chymru.

Q? Ymhle mae'r Ardd Siapaneaidd ym Mharc Coetir Afan?

Q? Ydych chi'n credu y dylai gael ei hadfer?

Q? A oedd gefeillio coetir Siapaneaidd a Chymreig yn syniad da neu beidio?

Q? Ydych chi'n gallu meddwl am unrhyw brosiectau eraill sy'n defnyddio gefeillio i greu cyfeillgarwch?



YMA

Byddwch yn falch o bwy yr ydych
oherwydd ein bod yn pwyso ar gyflawniadau'r rhai a ddaeth
o'n blaen..

(Paula Denby)



Llun pensil lliw gan Sadie, 10 mlwydd oed. (YBB)

Dolenni ychwanegol

[Peace Schools - Welsh Centre for International Affairs \(wcia.org.uk\)](http://wcia.org.uk)

[The Welsh Women's Peace Petition - National Library of Wales](#)

[Academi Heddwch Cymru HOMEPAGE - Welsh Centre for International Affairs \(wcia.org.uk\)](#)



Academi Heddwch Cymru HOMEPAGE - Welsh Centre for International Affairs

Academi Heddwch's aim is to extend Wales' strong tradition of peace-making and peace-promotion, by developing an...

Sianel *You Tube* gyda rhagor o'm gwaith celf, caneuon a barddoniaeth "*The Singing Paintbrush*" dyma'r ddolen:

UCOHel8NhwweZJS5FFgOLg_g

Am gefnogaeth a chyngor ynghylch phrosiectau bywyd gwyllt yng Nghastell-nedd Port Talbot cysylltwch â:

biodiversity@ npt.gov.uk

Cydnabyddiaeth

Gobeithiaf y byddwch yn credu bod y syniadau hyn yn ddefnyddiol, ac yn mwynhau'r delweddau 'rwyf wedi'u defnyddio i'w darlunio.

'Rwyf yn ddiolchgar i fod yn rhan o'r gwaith yma gyda "Calon Afan" i geisio rhoi bywyd newydd i'n hanes lleol.

Diolch arbennig i Adam John, Dawn Noonan ac amrywiol ddisgyblion Ysgol Bae Baglan am gofleidio a chefnogi'r gwaith hwn.

'Rydym yn gobeithio y bydd y pecyn hwn yn ysbrydoli'r rhinwedd ddynol fawr honno, sef

'cywreínrwydd'

Mae gan **Paula Denby** bron 40 mlynedd o brofiad yn gweithio ym myd Addysg a'r Celfyddydau.

Yn gynnar yn ei gyrfa , tra'n gweithio mewn uned ddiogel ar gyfer troseddwr ifainc, cynlluniodd a dysgodd rhaglen gelfyddydol i blant yn eu harddegau , gan gydnabod eu hawydd i gyfathrebu'n greadigol. Wedyn, fel pennaeth Arlunio mewn ysgol breswyl i ddisgyblion gydag anawsterau addysgiadol, llwyddodd i ddefnyddio eu gwaith traws gwriciwlar gyda llwyddiant ysgubol.

Wedi dychwelyd i Gymru, sefydlodd a rheolodd prosiect amgylchedol cymunedol "Cyfeillion Mynydd Dinas", gan weithio'n agos gyda Parc Coedwigoedd Afan, a sicrhau cytundeb deng mlynedd. Cafodd gwirfoddolwyr eu hyfforddi, gan ddatblygu eu sgiliau mewn rheoli'r amgylchedd ac arfesuriad.

Ganwyd Paula ym Mhorth Talbot, ac fe welodd gyda'u llygaid eu hun, ddistrywio'r amgylchedd oherwydd diwydiant ac angen dyn. Mae hyn wedi effeithio ar eu hymarferion proffesiynol yn bersonol ac yn ei gwaith.

Yn 2006, sefydlodd "EirlysArts", gan greu gweithdai Natur a Chelfyddyd ar gyfer ysgolion, canolfannau coedwigoedd a chymunedau. Mae'r gweithdai yma yn adlewyrchu cyfuniad unigryw o'r naturiaethydd, athrawes, arlunydd, bardd, cantores a storiwraig sef – Paula Denby

Yn 2012, argraffwyd "The White Bird", llyfr gyda'i neges wrth niwclear a'i lluniau godidog. Yn gyntaf, aeth y llyfr ar dro yn llyfrgelloedd Abertawe, gan ddatblygu llawer o ddilynwyr ac mae'n parhau i deithio'r byd.

Ym Mis Gorffennaf 2021, sefydlwyd "The Singing Paintbrush ". Dechreuodd Paula ddefnyddio cyfryngau torfol i arddangos ei harferion arlunio personol, sydd, yn ei geiriau ei hun "bywgraffiadur fy mywyd"

Fe fu sawl arddangosfa ac thlws – ei hoff un yw'r un cyntaf yn Orenfa Margam , ble am y tro cyntaf, dangosodd ei barddoniaeth ar yr un pryd a'u lluniau a'u hysgrythiadau.

Heddiw, mae hi'n dal i weithio gyda prosiectau sy'n agos at ei chalon – gan ymdrechu i sefydlu statws amgylchedol i Mynydd Dinas.



Paula Denby yn 2023

YMA

Byddwch yn falch o bwy yr ydych
oherwydd ein bod yn pwyso ar gyflawniadau'r rhai a ddaeth
o'n blaen..



Ysgol Bae Baglan wrth droed Mynydd Dinas, prïodolir i: Paula Denby